Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Aberdâr

Canolfan yr Urdd
Wind Street
Aberdâr
CF44 7ES

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Aberdâr

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Aberdâr |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Claire Jones |
| Person â gofal | Charlotte James |
| Nifer y lleoedd | 40 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 11 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 16 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 14 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 09.00 – 17.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Dwyieithog |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 18/01/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ebrill 2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 02/06/2026 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles a Gofal** | **Rhagorol** |
| **Addysgu, Dysgu a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Mireinio’r broses gynllunio i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cefnogi plant i wneud cynnydd adeiladol a chydlynus yn eu medrau

A2 Parhau i gefnogi ymarferwyr i gael mynediad cyson at ddysgu proffesiynol i feithrin eu hyder ymhellach wrth iddynt gyfathrebu’n gynyddol ddigymell â’r plant yn Gymraeg

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

# Prif ganfyddiadau

## Lles a Gofal: Rhagorol

Mewn amgylchedd dysgu hynod ofalgar, cynhaliol a diogel, mae bron bob plentyn yn hapus ac yn mwynhau dysgu. Mae ymarferwyr yn meithrin awyrgylch croesawgar sy'n cefnogi anghenion, dewisiadau a diddordebau'r plant yn llwyddiannus. Maent yn gwrando ar syniadau'r plant ac yn gwerthfawrogi eu cyfranogiad i'w dysgu. Trwy hyn, mae bron bob plentyn yn magu hyder i gyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus.

Mae bron bob plentyn yn ymateb yn hyderus i'r cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae a'u dysgu. Caiff barn a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi'n gyson gan ymarferwyr. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddealltwriaeth ymarferwyr o anghenion lles a dysgu plant unigol. Nodwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r modd mae ymarferwyr yn adolygu anghenion y plant yn gyson ac yn addasu'r ddarpariaeth yn fwriadus er mwyn ymateb a chefnogi eu dysgu. Mae'r dull o adnabod ymarferwyr unigol fel 'gweithwyr allweddol' i blant penodol yn effeithiol ac yn darparu gwybodaeth gyflawn am ddatblygiad pob plentyn.

Mae ymarferwyr yn cefnogi plant i siarad neu fynegi eu hunain trwy gynhaliaeth ac anogaeth gynhyrchiol. Trwy hyn, mae plant yn rhyngweithio'n frwdfrydig ac yn ymgyfarwyddo'n gyflym â'r trefniadau dyddiol ac yn gynyddol annibynnol, fel trefniadau amser snac. Mae'r ymarferwyr yn adnabod pob plentyn yn arbennig o dda, yn deall eu diddordebau ac yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion. Mae hyn, yn ei dro, yn meithrin ymddiriedaeth ac yn adeiladu hyder y plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn rhyngweithio'n frwdfrydig â phlant ac yn meithrin eu lles ac ymestyn eu dysgu'n fwriadus. Mae bron bob plentyn yn hyderus i ofyn cwestiynau a rhannu gwybodaeth neu ddymuniad gydag oedolyn mewn awyrgylch ddiogel a gofalgar. Mae plant yn cydweithredu'n frwd a pharchus ac yn cael eu hysbrydoli'n gyson gan ymarferwyr oherwydd y berthynas waith gynhaliol sy'n bodoli rhyngddynt. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn dysgu sut i gyd-chwarae a rhannu adnoddau a theganau gyda'u ffrindiau. Mae ymlyniad plant at eu dysgu yn gryfder sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu hymddygiad rhagorol a'u agweddau caredig at ei gilydd ac at oedolion.

Fel rhan o brofiadau chwarae a dysgu'r plant, mae ymarferwyr yn ymwybodol o'u hamgylchiadau a'u hanghenion unigol. Maent yn ymateb yn hyblyg a sensitif er mwyn ysgogi a chymell plant i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn gyson dros amser. Maent yn cynnal y plant yn fedrus pan fydd angen sicrwydd neu gymorth ychwanegol. Caiff gwybodaeth am ddatblygiad teimladau, emosiynau a dysgu plant ei chyfathrebu'n effeithiol gyda'r tîm o ymarferwyr, a gyda'r rheini a gofalwyr. Mae hyn yn cryfhau'r perthnasoedd gwaith cynhyrchiol sy'n bodoli rhwng y lleoliad a'r cartref.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad bob plentyn. Maent yn arsylwi ar y plant yn unigol ac mewn grwpiau bychain, ac yn rhannu gwybodaeth werthfawr am eu cynnydd gyda chydweithwyr. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol fel tîm er mwyn addasu a mireinio'r ddarpariaeth gyda'r nod o ddiwallu anghenion a sbarduno diddordebau'r plant. Er enghraifft, maent yn gwerthuso'r gweithgareddau dyddiol i adnabod syniadau, cynnydd a'r camau nesaf yn y dysgu. Mae hyn yn hyrwyddo diddordebau plant yn llwyddiannus iawn ac yn darparu cyfleoedd cyson iddynt wneud penderfyniadau am eu chwarae a'u dysgu mewn amrywiaeth ysgogol o gyd-destunau.

## Addysgu, Dysgu a Datblygiad: Rhagorol

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu hymdeimlad o berthyn i'r Cylch, i'w cartrefi a'r ardal leol. Er enghraifft, caiff arddangosfeydd deniadol eu darparu er mwyn i blant weld ffotograffau o'u teuluoedd ynghyd â safleoedd pwysig yn y gymuned leol. Yn ogystal, mae plant yn cael profiadau gwerthfawr wrth ymweld â'r llyfrgell leol yn gyson sydd, yn ei dro, yn meithrin eu diddordebau mewn testunau amrywiol a chefnogi eu medrau cyn-ddarllen yn llwyddiannus.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau'r profiadau ysgogol ac yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae a'u dysgu. Trwy ddarpariaeth ddiddorol a gweithgareddau rhagweithiol, caiff anghenion dysgu bron bob plentyn eu bodloni'n effeithiol. Mae hyn yn golygu bod plant yn rhyngweithio'n fwriadus wrth ddatblygu a gwneud cynnydd yn eu medrau.

Mae ymarferwyr yn hybu a chynnal diddordeb ac ymgysylltiad cyson plant mewn amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae hyn yn helpu plant i wynebu heriau yn hyderus, i ganolbwyntio am gyfnodau cynyddol estynedig ac i ddyfalbarhau'n gyson yn eu dysgu.

Gyda chefnogaeth gyson ymarferwyr, mae bron bob plentyn yn datblygu eu gallu i ddysgu'n gynyddol annibynnol. Trwy hyn, maent yn ymgolli a chanolbwyntio yn eu gweithgareddau yn llwyddiannus ac yn datblygu ystod dda o fedrau dros amser. Mae ymarferwyr yn canmol ymdrech a chyflawniad plant yn sensitif. Un o rinweddau amlwg y ddarpariaeth yw'r modd mae ymarferwyr yn hybu cynhwysiant yn llwyddiannus ymysg plant. Trwy adnabyddiaeth fanwl o gefndiroedd, ac o anghenion lles a dysgu plant, mae ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o brofiadau ac adnoddau er mwyn hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb.

Yn dilyn addasiadau buddiol i'r adeilad, mae ymarferwyr yn cydweithio'n ddiwyd fel tîm er mwyn creu amgylchedd dysgu croesawgar, ysgogol a chynhwysol. Caiff pob rhan o'r amgylchedd ei chynllunio a'i chyflwyno'n ddeniadol er mwyn hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn darparu gweithgareddau sy'n ennyn a chynnal diddordeb plant ac yn tanio eu chwilfrydedd yn llwyddiannus. Er

enghraifft, maent yn annog plant i ddysgu am sut mae planhigion yn tyfu wrth blannu a thyfu perlysiau yn yr ardd.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'r modd mae plant yn datblygu ac maent yn darparu ystod ysgogol o weithgareddau er mwyn hybu eu chwarae, meithrin eu medrau a chefnogi eu cynnydd. Yn yr arferion gorau, maent yn holi'r plant yn fedrus, yn eu harsylwi'n graff ac yn ymyrryd yn amserol yn eu dysgu. Mae ymarferwyr yn cynnal trafodaethau gwerthfawr am gynnydd a diddordebau'r plant er mwyn addasu'r ddarpariaeth ymhellach. Er hyn, nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigon clir ar gynllunio'r camau nesaf wrth ddatblygu medrau'r plant.

Mae ymarferwyr yn magu hyder ac yn ymdrechu'n ddiwyd i gyflwyno'r Gymraeg i blant mewn amrywiaeth dda o weithgareddau. Maent yn siarad Cymraeg yn gynyddol gyda'r plant ac yn modelu geirfa a phatrymau iaith syml sy'n annog dealltwriaeth plant yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw ymarferwyr yn ddigon hyderus bob tro i ddefnyddio dulliau trochi iaith yn gyson gyda phlant ac i sgwrsio'n gynyddol ddigymell gyda nhw yn Gymraeg.

Mae traddodiadau a dathliadau Cymru yn cael eu hyrwyddo'n fwriadus fel rhan naturiol o'r ddarpariaeth. Trwy hyn, mae plant yn gwella eu dealltwriaeth o bwysigrwydd siarad yr iaith ynghyd â dwysáu eu gwerthfawrogiad o Gymru. Er enghraifft, mae plant yn datblygu eu medrau siarad a digidol yn fedrus wrth ddefnyddio meicroffon a seinydd i ganu hwiangerddi traddodiadol a chaneuon cyfoes Cymraeg yn frwdfrydig. Mae ymarferwyr yn dathlu cefndiroedd amrywiol plant fel dull o ehangu eu gwybodaeth am wledydd a diwylliannau gwahanol yn effeithiol. Trwy hyn, mae plant yn datblygu eu dealltwriaeth o werthoedd a diwylliannau amrywiol Cymru, a'r byd ehangach, yn effeithiol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Rhagorol

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn sy'n anelu at sicrhau bod pob plentyn yn hapus ac yn mwynhau'r dysgu mewn amgylchedd ysgogol a chynhwysol. Nodwedd gref o'r arweinyddiaeth yw'r modd mae ymarferwyr yn cydweithio fel tîm diwyd wrth gynllunio a darparu ystod o brofiadau cyfoethog i ddisgyblion. Maent yn meithrin lles pob plentyn ac yn eu cefnogi i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus ac annibynnol.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a'r plant. Maent yn deall eu cyfrifoldebau statudol yn drwyadl. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn i ymarferwyr drafod eu profiadau ac unrhyw anghenion datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn hyrwyddo diwylliant cryf o gydweithio ac yn cynnal lles y tîm yn llwyddiannus.

Mae'r holl ymarferwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol yn dda, er enghraifft wrth sicrhau amgylchedd diogel a glân i blant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod prosesau recriwtio yn gadarn ac yn amserol, gyda gwiriadau addasrwydd parhaus ar waith yn gyson. Mae diwylliant a gweithdrefnau diogelu

yn briodol ac yn gwarchod lles a budd pob partner yn llwyddiannus. Mae trefniadau’r lleoliad i ddiogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder yn ystod yr arolygiad.

Mae brwdfrydedd cynhenid arweinwyr i ddatblygu’r ddarpariaeth yn barhaus yn gryfder nodedig. Trwy brosesau hunanwerthuso buddiol, mae’r holl bartneriaid, gan gynnwys rhieni a gofalwyr, yn cael mewnbwn defnyddiol i’r broses fonitro a gwerthuso dros amser. Mae hyn yn cefnogi cyfranogiad gweithredol arweinwyr i adnabod cryfderau’r gwasanaeth a’i feysydd i’w gwella. Fel rhan annatod o’r broses werthuso, mae arweinwyr yn sicrhau adnoddau, offer a theganau o safon ac ansawdd da i blant gael eu defnyddio wrth chwarae a dysgu.

Mae ymarferwyr yn cael cyfleoedd datblygiad proffesiynol buddiol, gan gynnwys amrediad da o hyfforddiant. Mae hyn yn arfogi staff yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr addysg a dysgu, er enghraifft wrth wella’r amgylchedd dysgu er mwyn bodloni anghenion plant. Mae ymarferwyr yn mwynhau cyfleoedd i fanteisio ar ddysgu proffesiynol i’w cefnogi i ddysgu’r iaith Gymraeg. Er hyn, nid yw’r cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael eu darparu’n ddigon cyson i’w cefnogi i feithrin eu hyder ymhellach a’u gallu i gyfathrebu’n gynyddol ddigymell gyda'r plant yn Gymraeg.

Mae gan arweinwyr drefniadau effeithiol i oruchwylio ac i fonitro’r ddarpariaeth. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o’r cyllid, gan gynnwys grantiau perthnasol, ac yn cynllunio’n fwriadus i’w wario’n ddarbodus er mwyn gwella’r ddarpariaeth yn barhaus. Mae arweinwyr yn cefnogi ymarferwyr i greu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol y tu mewn a thu allan i gefnogi plant i symud yn rhydd ac annibynnol o’r naill ardal ddysgu i’r llall. Caiff anghenion plant sy’n dod o aelwydydd incwm isel eu bodloni’n fwriadus.

Mae gan y rheolwyr a’r ymarferwyr berthnasoedd gwaith effeithiol â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu’n gyson â nhw mewn amrywiol ddulliau er mwyn cefnogi chwarae a dysgu’r plant. Mae gan y gwasanaeth drefniadau effeithiol er mwyn cefnogi’r plant i symud i’r camau nesaf yn eu dysgu, er enghraifft wrth iddynt drosglwyddo i’r ysgolion cynradd lleol. Trwy gydweithio ag amrywiaeth eang o bartneriaethau, mae ymarferwyr yn cefnogi iechyd, lles a dysgu’r plant, gan gynnwys y rhai sydd angen cynhaliaeth, yn hynod lwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2026